

THOMAS, RICHARD (1753 - 1780), clerigwr a chynullydd llawysgrifau ac achau

Enw: Richard Thomas
Dyddiad geni: 1753
Dyddiad marw: 1780
Rhiant: Jane Rowland (née Jones)
Rhiant: Thomas Rowland
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a chynullydd llawysgrifau ac achau
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 10 Rhagfyr 1753, mab Thomas Rowland, Tuhwnt i'r Bwlch, plwyf Ynyscynhaearn, Sir Gaernarfon, a Jane Jones ([J. E. Griffith](#), *Pedigrees*, 359). Bu yn Ysgol y Friars, Bangor, cyn mynd i Goleg Iesu, Rhydychen (ymaelodi 28 Tachwedd 1771; B.A. 1775). Tua diwedd 1777 cafodd guradiaeth Llanegryn, Sir Feirionnydd, a'i ddewis yn athro ysgol yno. Erbyn mis Mai 1779, os nad cyn hynny, yr oedd yn gurad Rhuthyn, lle y bu farw yn 1780. Fel y dengys [J. E. Griffith](#) (loc. cit.), yr oedd cysylltiad teuluol rhwng Richard Thomas â [Dr. Griffith Roberts](#), Dolgellau, a oedd yntau yn gasglwr llawysgrifau ac a ddaeth i feddu rhai o lawysgrifau Thomas, e.e. Pen. 201. Peth arall hefyd, yr oedd Richard yn frawd iau i [John Thomas](#), dirprwy-bennaeth ysgol ramadeg Biwmares. Bu'r brawd hynaf farw yn 1769 gan adael ei lawysgrifau, meddir, i'w frawd iau. Nid rhyfedd, felly, cael Richard Thomas yn dangos yn ei lythyrau o Goleg Iesu fod iddo ddi-ddordeb mewn casglu a chopio llawysgrifau. Cyfarfu Richard Thomas ag [Evan Evans](#) ('Ieuan Brydydd Hir') ym Mheniarth ym mis Ebrill 1775 ar adeg, y mae'n werth sylwi, pan oedd Cymdeithas y Cymmrodorion, ag [Owen Jones](#) ('Owain Myvyr') yn ysgrifennydd iddi, yn ceisio trefnu i gyhoeddi cynnwys rhai llawysgrifau a oedd mewn llyfrgelloedd preifat er mwyn i ysgolheigion gael gwneuthur ymchwiliadau i hanes a llenyddiaeth Cymru; dywed [Hugh Maurice](#), nai [Owen Jones](#), i olygyddion y *The Myvyrian Archaeology of Wales* ddefnyddio rhai o lawysgrifau [John](#) a Richard Thomas. Diddorol, felly, yw gweld peth fel hyn mewn llythyr a anfonodd Richard Thomas at '[Owain Myvyr](#)' ar 17 Mai 1778 o Peniarth - 'Er pan ydwyf yn y Wlad yr ydwyf wedi cael Ffafor fawr yng Ngolwg [Mr. Vychan](#) o'r Hengwrt - gwedi cael edrych ei Lyfrau trosodd Amryw Weithiau, ac mae efe (trwy fy Nymuniad i) gwedi gaddo gyrru am Rwyniwr Llyfrau i'w Dyr Haf hwn, i rwymo y sawl rhai ynt yn o gandryll, ac i ddiwigio'r Cwbl - a minnau i fôd yno i wneud Côfrestr o naddynt. ... Fe welais [Ieuan Fardd](#) ('Ieuan Brydydd Hir') ym Mheniarth yn ddiweddar ...' (gweler 'Introduction' i *N.L.W. Handlist of MSS.*, i, lle y dyfynnir hefyd frawddeg o lythyr a anfonodd Richard Thomas at '[Ieuan Fardd](#)' ynghlun â llyfrgell Hengwrt). Cadwyd cryn nifer o lythyrau Richard Thomas ynghyd â rhai o'i lawysgrifau; e.e. Pen. MS. 201, ac NLW MS. 42, 53.

Dywed [Robert Williams](#) (*Enwogion Cymru: a Biographical Dictionary of Eminent Welshmen*) ac [Isaac Foulkes](#) (*Enw*), i E. Protheroe, A.S., werthu rhai o lawysgrifau achau Richard Thomas i'r College of Heralds, Llundain, a chyfeiriant at ddwy lawysgrif achau a oedd yn aros heb eu gwerthu, y naill yn Rhûg, gerllaw Corwen, a'r llall yn Peniarth. Ychwanega [Foulkes](#) fod ar gael 'Gywydd o Annerch' i Richard Thomas pan ymwelodd â Rhiwaedog, gerllaw'r Bala, gan [Rowland Huw](#) o'r Graienyn.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y ffynonellau a enwyd eisoes ychwaneger Foster, *Alumni Oxonienses*

Additional Manuscripts in the British Museum 15030, 15031

NLW MSS 172, 9072, 12864

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7329445](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

